20's Plenty for Us
…making your place a better place to be

Diolch am 20 / Thanks for 20

## ‘Diolch am 20’ - Llythyr Agored i’r Wasg – i’w gyhoeddi ar 17 Medi

Rydym yn cefnogi menter Llywodraeth Cymru i wneud 20mya y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ardaloedd preswyl ac adeiledig o heddiw, 17 Medi, ymlaen. Rydym yn canmol y terfyn 20mya fel y cyfraniad enfawr tuag at strydoedd tecach a mwy o gymunedau gwerth byw ynddynt i bawb yng Nghymru. Nid budd o ran diogelwch ar y ffyrdd yn unig ydyw. Mae hefyd yn cefnogi nodau iechyd, hinsawdd a chymdeithasol ehangach fel helpu’r rheini sy’n agored i niwed i symud o gwmpas, gwella cysylltiad cymdeithasol, lleihau llygredd aer a sŵn, a mwy.




Mae o fudd i’r **513,800** o blant yng Nghymru a fydd yn gweld cerdded, beicio a sgwtera i’r ysgol ac adref, i fynd i weld ffrindiau, teulu neu ymweld â mannau chwarae yn llawer mwy diogel. A bydd **298,519** o aelwydydd sydd heb gar neu fan, gan gynnwys **48%** o aelwydydd un rhiant, yn elwa gan strydoedd mwy diogel tra’n cerdded neu’n beicio.

Hefyd, bydd y **600,000** o bobl sydd â thocynnau teithio rhatach sy’n cerdded am o leiaf rhan o’u taith, ac sy’n aml yn sefyll ar ymyl y ffordd, yn gweld bod eu symudedd yn gwella.

Ac mae ymchwil yn dangos na fydd dros **12,133** o bobl yn cael eu hanafu gan gerbydau dros y 10 mlynedd nesaf. Gallai un ohonynt fod yn rhywun sy’n darllen yr erthygl hon.

Rydym yn ddiolchgar.

20 yn Ddigon i Ni

Action for Children / Gweithredu dros Blant · Action Vision Zero · Brake the road safety charity · Cardiff Cycling Campaign · Plant yng Nghymru / Children in Wales · We are Cycling UK Cymru · Friends of the Earth Cymru / Cyfeillion y Ddaear Cymru · Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales · Chwarae Cymru / Play Wales · Living Streets Cymru · Playing Out · RoadPeace · Sport Wales / Chwaraeon Cymru · Sustrans – Ymunwch â'r mudiad / Join the movement · The UK Noise Association – Campaigning for action against noise